CarnegieUK TRUST

CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

TAFLEN FFEITHIAU'R WLAD

# Taflu goleuni

## Data Cymreig ynglŷn ag agweddau tuag at y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus 2011-2016

Pum mlynedd yn ôl cwblhawyd ymchwil gan Carnegie UK Trust ar y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus ac agweddau cyhoeddus tuag at lyfrgelloedd yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon. Dyma'r tro cyntaf y cynhyrchwyd data a alluogodd cymhariaeth uniongyrchol ar draws yr awdurdodaethau hyn.

Yn 2016 cwblhawyd yr arolwg gennym unwaith eto i weld a yw'r agweddau tuag at lyfrgelloedd a'r lefelau o ddefnydd wedi newid ers 2011. Bu i ni ychwanegu rhai cwestiynau newydd i adlewyrchu ychydig ar y drafodaeth ynghylch gwirfoddoli a newidiadau mewn gwasanaethau. Cwblhawyd yr ymchwil gan Ipsos MORI ar gyfer Carnegie UK Trust.
Roedd yr ymchwil yn cynnwys pôl omnibws a gwblhawyd ym mhob un o'r awdurdodaethau sydd wedi'u cynnwys gan yr Ymddiriedolaeth yn ei gwaith.



Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys y data ar gyfer Cymru. Yng Nghymru, roedd **1,011 o oedolion** dros 16 oed wedi'u cynnwys yn y pôl. Os yw'n berthnasol, gwneir cymariaethau ag ystadegau 2011. Mae canlyniadau'r pôl omnibws yn cynnig data y gellir ei gymharu o'r pum awdurdodaeth.

### DATA O AWDURDODAETHAU ERAILL

Gellir lawrlwytho'r daflen ffeithiau sy'n cynnwys y pedair awdurdodaeth arall ynghyd â llyfryn sy'n cymharu'r gwahanol awdurdodaethau yn **http://bit.ly/shining-a-light**. Os hoffech gael mynediad at y setiau data ar ffurf SPSS cysylltwch ag **info@carnegieuk.org**

## Y DARLUN YN **2016**

Dengys y data bod tua 3/4 (76%) o bobl Cymru'n dweud bod llyfrgelloedd cyhoeddus yn bwysig i'w cymunedau ac roedd ychydig yn llai na hanner y bobl (46%) wedi defnyddio llyfrgell yn y flwyddyn flaenorol. Dywed tua dwy ran o dair o bobl (37%) fod llyfrgelloedd yn bwysig iddyn nhw'n bersonol. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg iawn i rai'r awdurdodaethau eraill.

Yng Nghymru, mae menywod a phobl sydd â phlant yn eu cartrefi yn fwy tebygol o ddefnyddio llyfrgelloedd na dynion a'r rhai sydd heb blant yn eu cartrefi. Tra bod menywod hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio llyfrgelloedd yn aml, prin iawn yw effaith plant yn y cartref ar amlder y defnydd o lyfrgell.

Mae'r rhai dros 55 oed yn llai tebygol o ddefnyddio llyfrgelloedd na grwpiau oed eraill, mae cyflogeion rhan-amser yn fwy tebygol o ddefnyddio llyfrgelloedd na chyflogeion llawn amser neu bobl sydd wedi ymddeol. Mae'r rhai nad ydynt yn gweithio hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio llyfrgelloedd yn aml na phobl sydd wedi ymddeol. Nid yw amlder defnydd yn amrywio llawer o ran statws gweithio. Mae rhai amrywiadau allweddol hefyd o ran defnydd fesul grŵp economaidd-gymdeithasol. Mae ABC1 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell na C2DE; AB yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell na C1, C2 na DE, C1 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell na C2 na DE; a C2 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell na DE. Unwaith eto, mae ABC1 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell yn rheolaidd na C2DE a C1 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r llyfrgell yn amlach na C2.

### TERMINOLEG

**Defnydd** – wedi defnyddio neu gysylltu â'r llyfrgell yn ystod y 12 mis cyn y pôl omnibws

**Defnydd rheolaidd** – wedi defnyddio neu gysylltu â'r llyfrgell unwaith y mis o leiaf yn ystod y 12 mis cyn y pôl omnibws

**Defnyddiwr llyfrgell** – yn cyfeirio at y rhai a ddefnyddiodd y llyfrgell yn ystod y 12 mis cyn y pôl omnibws

**Dim yn ddefnyddiwr** – yn cyfeirio at y rhai nad ydynt wedi defnyddio'r llyfrgell yn ystod y 12 mis cyn y pôl omnibws

**Defnyddiwr rheolaidd** – defnyddwyr llyfrgell sydd wedi defnyddio neu gysylltu â'r llyfrgell unwaith y mis o leiaf yn ystod y 12 mis cyn y pôl omnibws

**Darllenydd brwd** – yn cyfeirio at y rhai sy'n darllen un llyfr o leiaf bob wyth wythnos

**Pwysig** – yn cyfeirio at y categorïau o 'hanfodol' a 'pwysig iawn' yn unig. Mae 'eithaf pwysig' wedi ei dynnu o'r diffiniad hwn er mwyn minio'r dadansoddiad.

## CYMHARU **2011** A **2016**

Gwelodd Cymru gynnydd o un y cant yn y defnydd o lyfrgelloedd rhwng 2011 a 2016 (45%-46%). Gwelodd hefyd ostyngiad sylweddol yn y defnydd rheolaidd (57%-41%) sef y gostyngiad mwyaf yn y defnydd rheolaidd o'r holl awdurdodaethau. Mae newidiadau yn y defnydd o lyfrgelloedd rhwng 2011-2016 yn ôl rhywedd, oed, statws gwaith neu fesul cartrefi gyda/heb blant yn gymharol isel. Fodd bynnag, mae gostyngiadau sylweddol yn y defnydd rheolaidd ymysg dynion (-16 o bwyntiau canran), merched (-17 o bwyntiau canran), rhai 15-24 oed (-31 o bwyntiau canran), rhai 34-54 oed (-15 o bwyntiau canran), dros 55 oed (-16 o bwyntiau canran), cyflogeion llawn amser (-11 o bwyntiau canran), cyflogeion rhan-amser (-15 o bwyntiau canran), a'r rhai sydd wedi ymddeol (-24 o bwyntiau canran), a chartrefi gydag a heb blant (-20 a -14 o bwyntiau canran yn y drefn honno). Mae gostyngiadau hefyd yn y defnydd o lyfrgelloedd ymysg grŵp economaidd-gymdeithasol C2 (-10 o bwyntiau canran) a gostyngiadau yn y defnydd rheolaidd o lyfrgelloedd ymysg ABC1 a C2DE (-14 a -18 o bwyntiau canran yn y drefn honno).

Yn gyffredinol, mae cynnydd yn y gefnogaeth tuag at welliannau a newidiadau i annog y defnydd o lyfrgelloedd yng Nghymru, ac mae pobl yn gyffredinol yn cefnogi gwirfoddolwyr i roi cymorth i staff presennol ond nid i'w disodli.

**Nodiadau**

Mae un gwahaniaeth yn y modd y casglwyd data yn 2016 o'i gymharu â 2011. Yn 2016, newidiwyd y diffiniad o 'ddarllen brwd' i 'un neu ragor o lyfrau pob wyth wythnos' yn hytrach nag 'un neu ragor o lyfrau bob chwe wythnos' er mwyn cysoni'r atebion yn well â chwestiynau'r cyfweliad.

### RHAGFYNEGWYR

**Mae atchwel logistaidd yn adnabod y ffactorau canlynol fel rhagfynegwyr ar gyfer tebygolrwydd ymatebwyr yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf:**

- Bod yn fenyw
- Bod yn ifancach (15-24 oed)
- Bod yn y grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1
- Bod yn ddarllenydd 'brwd'

# Y DARLUN CYFFREDINOL YNG NGHYMRU

## Defnydd o lyfrgell

| 2011 | 2016 |
|---|---|
| 45% | 46% |

**2016**

BRON 1 O BOB 2 o bobl yn defnyddio llyfrgelloedd

**2011–2016**

Cynnydd yn y defnydd o lyfrgell

+1

## Amlder defnydd o lyfrgell

| 2011 | 2016 |
|---|---|
| 57% | 41% |

**2016**

TUA 2/5 o ddefnyddwyr llyfrgell sy'n ddefnyddwyr rheolaidd

**2011–2016**

Gostyngiad yn y defnydd rheolaidd o lyfrgell

-16

## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned ac yn bersonol

2011 2016

| | Cymuned 2011 | Cymuned 2016 | Personol 2011 | Personol 2016 |
|---|---|---|---|---|
| Hanfodol | 37% | 31% | 16% | 12% |
| Pwysig iawn | 39% | 44% | 21% | 24% |
| Eithaf pwysig | 17% | 17% | 19% | 20% |
| Ddim yn bwysig | 3% | 4% | 22% | 28% |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 2% | 2% | 20% | 15% |
| Ddim yn gwybod | 1% | 1% | 1% | * |

**2016**

YCHYDIG DROS 3/4 o bobl yn dweud bod llyfrgelloedd yn bwysig i gymunedau



TUA 2/5 o bobl yn dweud bod llyfrgelloedd yn bwysig iddynt hwythau yn bersonol



**Mae defnyddwyr llyfrgell yn fwy tebygol o ddweud bod llyfrgelloedd yn bwysig i'r gymuned ac iddynt hwythau yn bersonol**

**2016**

*Barn defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr*

| | Cymuned | Yn Bersonol |
|---|---|---|
| Defnyddiwr | 86% | 61% |
| Ddim yn ddefnyddiwr | 66% | 16% |

## CRYNODEB 2016

### Y darlun cyffredinol yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Yn defnyddio | 46% |
| Amlder defnydd o lyfrgell | 41% |
| Pwysigrwydd i gymuned | 76% |
| Pwysigrwydd yn bersonol | 37% |

# CANOLBWYNTIO AR **RYWEDD** YNG NGHYMRU

## Defnydd o lyfrgell yn ôl **rhywedd**

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Dynion | 42% | 39% |
| Menywod | 48% | 53% |

## Amlder o ddefnydd o lyfrgell yn ôl **rhywedd**

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Dynion | 50% | 34% |
| Menywod | 62% | 45% |

## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Dynion | 75% | 71% |
| Menywod | 78% | 79% |

## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i mi'n bersonol

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Dynion | 36% | 32% |
| Menywod | 40% | 41% |

### RHAGFYNEGWYR

*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod, bod yn fenyw yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf.*

# CANOLBWYNTIO AR **GARTREFI GYDAG A HEB BLANT** YNG NGHYMRU

## Defnydd o lyfrgell yn ôl **cartrefi gyda phlant**

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Cartrefi heb blant | 42% | 43% |
| Cartrefi gyda phlant | 53% | 55% |

## Amlder o ddefnydd o lyfrgell yn ôl **cartrefi gyda phlant**

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Cartrefi heb blant | 55% | 41% |
| Cartrefi gyda phlant | 60% | 40% |

## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned

| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Cartrefi heb blant | 78% | 76% |
| Cartrefi gyda phlant | 75% | 74% |

## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i mi'n bersonol


| | 2011 | 2016 |
|---|---|---|
| Cartrefi heb blant | 36% | 35% |
| Cartrefi gyda phlant | 42% | 40% |

RHAGFYNEGWYR


*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod cael plant yn y cartref yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf.*

## CANOLBWYNTIO AR **OED** YNG NGHYMRU


### Defnydd o lyfrgell yn ôl **oed**





### Amlder o ddefnydd o lyfrgell yn ôl **oed**




### Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned




### Pwysigrwydd llyfrgelloedd i mi'n bersonol





RHAGFYNEGWYR


*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod, bod yn 15-24 oed yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf.*

# CANOLBWYNTIO AR **STATWS GWAITH** YNG NGHYMRU


## Defnydd o lyfrgell yn ôl **statws gwaith**





## Defnydd o lyfrgell yn ôl **statws gwaith**




## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned





## Pwysigrwydd llyfrgelloedd i mi'n bersonol




## CANOLBWYNTIO AR **GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL YNG** NGHYMRU


### Amlder o ddefnydd o lyfrgell yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol





### Amlder o ddefnydd o lyfrgell yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol




### Pwysigrwydd llyfrgelloedd i'r gymuned




### Pwysigrwydd llyfrgelloedd i mi'n bersonol





RHAGFYNEGWYR

*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod, bod yn y grŵp economaidd-gymdeithasol ABC1 yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf.*


## CANOLBWYNTIO AR **YMDDYGIAD DARLLEN** YNG NGHYMRU

### Defnydd o lyfrgell yn ôl **darllenyddiaeth**(%)

Diffinnir darllenyddiaeth o ran y llyfrau a ddarllenir mewn unrhyw ffurf (e.e. llyfr go iawn, ar e-ddarllenydd neu offeryn arall, neu lyfr sain) heb gynnwys llyfrau a ddarllenir mewn gwaith cyflogedig neu astudiaeth academaidd.




### Defnydd o lyfrgell yn ôl **darllenyddiaeth** (%)




RHAGFYNEGWYR

*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod, bod yn ddarllenydd brwd yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn ystod y 12 mis diwethaf.*


*Mae dadansoddiad atchwel logistaidd, sy'n rheoli ffactorau eraill, yn dangos bod, bod yn ddarllenydd brwd yn rhagfynegydd ar gyfer y tebygolrwydd o bobl yng Nghymru fod wedi defnyddio llyfrgell yn rheolaidd yn ystod y 12 mis diwethaf.*

"Er bod perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng y defnydd o lyfrgelloedd a darllenyddiaeth frwd, mae 31% o bobl sydd yn anaml iawn neu fyth yn darllen llyfrau, yn defnyddio'r llyfrgell."

## AGWEDDAU TUAG AT **WELLIANNAU POSIB I WASANAETHAU** YNG NGHYMRU

Gofynnom i bobl yng Nghymru ystyried a fyddai nifer o newidiadau posib yn eu hannog neu beidio i wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau llyfrgell. Yn gyffredinol, o'i gymharu â 2011, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gael eu hannog i ddefnyddio'u llyfrgell petai gwasanaethau'n newid neu'n gwella.

### Cefnogaeth o welliant a **newidiadau a gynigiwyd** i wasanaeth 2011 a 2016




1 Roedd hwn yn gategori newydd ar gyfer 2016.
2 Roedd hwn yn gategori newydd ar gyfer 2016.

**2011–2016**

### Y gwelliannau mwyaf poblogaidd a awgrymwyd i'r gwasanaeth yn 2011

- Darparu **gwell gwybodaeth** am y gwasanaeth a gynigir **(39%)**
- Darparu **gwasanaethau eraill o'r cyngor** yn adeilad y llyfrgell **(39%)**
- Agor **caffi neu siop goffi** **(38%)**

### Y gwelliannau mwyaf poblogaidd a awgrymwyd i'r gwasanaeth yn 2016

- Darparu **gwell gwybodaeth** am y gwasanaeth a gynigir **(52%)**
- Cynnig **mwy o ddigwyddiadau (51%)**
- Darparu **gwasanaethau eraill o'r cyngor** yn adeilad y llyfrgell **(50%)**

**DEFNYDDWYR A'R RHAI NAD YDYNT YN DDEFNYDDWYR**

### Gwelliannau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr llyfrgell

- Darparu **gwell gwybodaeth** ar beth sydd gan wasanaethau llyfrgelloedd i'w cynnig **(66%)**
- Cynnig **mwy o ddigwyddiadau** **(64%)**
- Darparu **gwasanaethau eraill o'r cyngor** mewn adeiladau llyfrgell **(63%)**

### ... a'r rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgell

- Darparu **gwell gwybodaeth** ar beth sydd gan wasanaethau llyfrgelloedd i'w cynnig **(39%)**
- Cynnig **mwy o ddigwyddiadau (39%)**
- Darparu **gwasanaethau eraill o'r cyngor** mewn adeiladau llyfrgell **(39%)**

> *"Yn gyffredinol, mae defnyddwyr yn fwy tebygol na'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr i ddweud y byddai gwelliannau a awgrymir yn cynyddu'r defnydd o'r llyfrgell"*

## AGWEDDAU TUAG AT **WELLIANNAU POSIB I WASANAETHAU** YNG NGHYMRU

2016

### Gwelliannau mwyaf poblogaidd ar gyfer grwpiau eraill:

**Defnyddwyr rheolaidd**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(65%)**

**Dynion**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(50%)**

**Menywod**
Caffi neu siop goffi ar y safle **(54%)**

**Cartrefi gyda phlant**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(63%)**

**Cartrefi heb blant**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(48%)**

**Rhai 15-24 oed**
Medru chwilio am lyfrau ar-lein neu eu harchebu **(68%)**

**Rhai 25-35 oed**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(62%)**

**Rhai 35-54 oed**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(56%)**

**Rhai 55+ oed**
Darparu gwasanaethau eraill o’r cyngor mewn adeiladau llyfrgell **(44%)**

**Cyflogedig llawn amser**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(57%)**

**Cyflogedig rhan-amser**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(62%)**

**Ddim yn gweithio**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(61%)**

**Wedi ymddeol**
Darparu gwasanaethau eraill o’r cyngor mewn adeiladau llyfrgell **(46%)**

**Gradd gymdeithasol A[3]**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(67%)**

**Gradd gymdeithasol B**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(60%)**

**Gradd gymdeithasol C1**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(56%)**

**Gradd gymdeithasol C2**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(42%)**

**Gradd gymdeithasol D**
Darparu gwasanaethau eraill o’r cyngor mewn adeiladau llyfrgell **(58%)**

**Gradd gymdeithasol E**
Cynnig mwy o ddigwyddiadau **(51%)**

**Darllenwyr brwd**
Darparu gwell gwybodaeth ar ba wasanaethau mae llyfrgelloedd yn eu cynnig **(59%)**


**Rhai sydd yn anaml/byth yn darllen llyfrau**
Darparu gwasanaethau eraill o’r cyngor mewn adeiladau llyfrgell **(38%)**

3 Dylai’r ffigwr yn y categori hwn gael ei ystyried fel un dangosol yn hytrach na chynrychiadol gan fod y nifer sylfaenol yn isel.

## AGWEDDAU TUAG AT Y **DEFNYDD O WIRFODDOLWYR** MEWN PERTHYNAS Â'R GWASANAETH LLYFRGELL YNG NGHYMRU


Yn 2016 bu i ni gyflwyno cwestiwn i geisio barn pobl ar y defnydd o wirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

### Y defnydd o wirfoddolwyr i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a gynigir gan staff cyflogedig





**YCHYDIG DROS ½ o bobl sy'n ffafrio gwirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth at y gwasanaethau a gynigir gan staff cyflogedig**

### Yn ffafrio gwirfoddolwyr yn ychwanegu gwerth at waith staff cyflogedig





### Y defnydd o wirfoddolwyr i ddisodli holl staff cyflogedig




**LLAI NA 1 O BOB 10 o bobl yn ffafrio gwirfoddolwyr yn disodli holl staff cyflogedig**

### Yn gwrthwynebu gwirfoddolwyr yn disodli holl staff cyflogedig



ATODIAD

# Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol a newidiadau dros amser

## 1) TROSOLWG

### Gwahaniaethau

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith menywod (57% 2011, 41% 2016) = -16 o bwyntiau canran

## 2) RHYWEDD

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Menywod (53%) yn uwch na dynion (39%) = 14 o bwyntiau canran AMLDER DEFNYDD – Menywod (45%) yn uwch na dynion (34%) = 11 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD I GYMUNED**

- Menywod (79%) yn uwch na dynion (71%) = 8 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD YN BERSONOL**

- Menywod (41%) yn uwch na dynion (32%) = 9 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith menywod (62% 2011, 45% 2016) = -17 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith dynion (50% 2011, 34% 2016) = -16 o bwyntiau canran

## 3) CARTREFI GYDA PHLANT

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Cartrefi gyda phlant (55%) yn uwch na chartrefi heb blant (43%) = 12 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith cartrefi gyda phlant (55% 2011, 41% 2016) = -14 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith cartrefi heb blant (60% 2011, 40% 2016) = -20 o bwyntiau canran

## 4) OED

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Rhai 15-24 oed (51%) yn uwch na rhai 55 oed (41%) = 10 o bwyntiau canran
- Rhai 25-34 oed (52%) yn uwch na rhai 55 oed (41%) = 11 o bwyntiau canran
- Rhai 35-54 oed (49%) yn uwch na rhai 55 oed (41%) = 8 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD I GYMUNED**

- Rhai 35-54 oed (75%) yn uwch na rhai 15-24 oed (65%) = 10 o bwyntiau canran
- Rhai dros 55 oed (81%) yn uwch na rhai 15-24 oed (65%) = 16 o bwyntiau canran
- Rhai 55 oed (81%) yn uwch na rhai 25-34 oed (74%) = 7 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith rhai 15-24 oed (63% 2011, 32% 2016) = -31 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith rhai 35-54 oed (58% 2011, 43% 2016) = -15 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith rhai dros 55 oed (59% 2011, 43% 2016) = -16 o bwyntiau canran

## 5) STATWS GWAITH

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Cyflogeion rhan-amser (58%) yn uwch na chyflogeion llawn amser (46%) = 12 o bwyntiau canran
- Cyflogeion rhan-amser (58%) yn uwch na rhai wedi ymddeol (40%) = 18 o bwyntiau canran
- Ddim yn gweithio yn uwch (54%) na rhai wedi ymddeol (40%) = 14 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith cyflogeion llawn amser (50% 2011, 39% 2016) = -11 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith cyflogeion rhan-amser (61% 2011, 46% 2016) = -15 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith rhai wedi ymddeol (63% 2011, 39% 2016)
  = -24 o bwyntiau canran

## 6) GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL[4]

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- ABC1 (56%) yn uwch na C2DE (38%) = 18 o bwyntiau canran
- AB (63%) yn uwch na C1C2 (44%) = 19 o bwyntiau canran
- AB (63%) yn uwch na C1 (53%) = 10 o bwyntiau canran
- AB (63%) yn uwch na C2 (30%) = 33 o bwyntiau canran
- AB (63%) yn uwch na DE (43%) = 20 o bwyntiau canran
- C1 (53%) yn uwch na C2 (30%) = 23 o bwyntiau canran
- C1 (53%) yn uwch na DE (43%) = 10 o bwyntiau canran
- DE (43%) yn uwch na C2 (30%) = 13 o bwyntiau canran

**AMLDER DEFNYDD**

- ABC1 (45%) yn uwch na C2DE (37%) = 8 o bwyntiau canran
- C1 (49%) yn uwch na C2 (33%) = 16 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD YN BERSONOL**

- ABC1 (41%) yn uwch na C2DE (33%) = 8 o bwyntiau canran
- AB (47%) yn uwch na C1C2 (33%) = 14 o bwyntiau canran
- AB (47%) yn uwch na C2 (25%) = 22 o bwyntiau canran
- AB (47%) yn uwch na DE (37%) = 10 o bwyntiau canran
- C1 (38%) yn uwch na C2 (25%) = 13 o bwyntiau canran
- DE (37%) yn uwch na C2 (25%) = 12 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Gostyngiad ymhlith C2 (40% 2011, 30% 2016)
  = -10 o bwyntiau canran

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith ABC1 (59% 2011, 45% 2016)
  = -14 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith C2DE (55% 2011, 37% 2016)
  = -18 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD I GYMUNED**

- Gostyngiad ymhlith C2 (80% 2011, 72% 2016)
  = -8 o bwyntiau canran

**PWYSIGRWYDD YN BERSONOL**

- Gostyngiad ymhlith C2 (33% 2011, 25% 2016)
  = -8 o bwyntiau canran

## 7) DARLLENYDDIAETH

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Darllenwyr brwd (60%) yn uwch na darllenwyr eraill (50%)
  = 10 o bwyntiau canran

**AMLDER DEFNYDD**

- Darllenwyr brwd (31%) yn uwch na darllenwyr eraill (15%)
  = 16 o bwyntiau canran

### Gwahaniaethau dros amser

**DEFNYDD O LYFRGELL**

- Gostyngiad ymhlith darllenwyr brwd (68% 2011, 60% 2016)
  = -8 o bwyntiau canran
- Gostyngiad ymhlith darllenwyr anaml (17% 2011, 26% 2016) = 9 o bwyntiau canran

**AMLDER DEFNYDD**

- Gostyngiad ymhlith darllenwyr brwd (45% 2011, 31% 2016) = -14 o bwyntiau canran

4 Profion a gwblhawyd ar gyfer: ABC1 / C2DE; AB / C1 / C2 / DE; AB / C1C2 / DE

Nod Carnegie Trust UK yw gwella bywydau pobl ledled y DU ac Iwerddon, drwy newid meddyliau wrth ddylanwadu ar bolisi, a thrwy newid bywydau drwy arferion arloesol a gwaith mewn partneriaeth. Sefydlwyd Carnegie UK Trust gan y dyngarwr Albanaidd-Americanaidd Andrew Carnegie yn 1913.

**Andrew Carnegie House**
**Pittencrieff Street**
**Dunfermline**
**KY12 8AW**

**Ffôn: +44 (0)1383 721445**
**Ffacs: +44 (0)1383 749799**
**Ebost: info@carnegieuk.org**
**www.carnegieuktrust.org.uk**

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Dr Jenny Peachey
Ebrill 2017

CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Carnegie United Kingdom Trust
Elusen Albanaidd SC 012799 yn gweithredu yn y DU ac Iwerddon
Ymgorfforwyd drwy Siarter Frenhinol 1917

ISBN 978-1909447707